

# Pŵer Carbon Isel Cei Connah

## Cylchlythyr yr Ymgynghoriad Statudol

**Dydd Mawrth 8 Hydref 2024 i ddydd Mawrth 19 Tachwedd 2024**

Mae Uniper UK Limited (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel 'Uniper') yn edrych ar y posibilrwydd o ddatblygu gorsaf bŵer nwy newydd gyda thechnoleg dal carbon ar ei safle yng Nghei Connah, sef prosiect Pŵer Carbon Isel Cei Connah (CQLCP). Pe bai'r orsaf bŵer newydd yn cael caniatâd ac yn cael ei datblygu, byddai'n gallu darparu tua 1.1 gigawat (GW) o bŵer carbon isel, er mwyn helpu i ddiwallu'r angen cynyddol am drydan, pryd bynnag y bydd ei angen.

Rydym yn anfon y cylchlythyr hwn atoch i roi gwybod i chi y byddwn yn agor ein Hymgynghoriad Statudol cyn bo hir, a fydd yn dechrau **ddydd Mawrth 8 Hydref 2024 tan ddydd Mawrth 19 Tachwedd 2024.**

Ym mis Chwefror eleni, cynhaliwyd ein Hymgynghoriad Anstatudol cychwynnol ar gyfer prosiect CQLCP. Bydd eich barn, eich adborth a'ch awgrymiadau yn amhrisiadwy wrth i ni barhau i ddatblygu'r prosiect.

Mae manylion llawn yr ymgynghoriad ar gael yn y cylchlythyr hwn, neu gallwch fynd i'n gwefan ymgynghori i gael rhagor o wybodaeth: **https://uniperuk.consulting/cqlcp/cy/hafan/**

Gellir gweld dogfennau'r ymgynghoriad o ddyddiad lansio'r ymgynghoriad ymlaen, sef dydd Mawrth 8 Hydref.

Bydd deunyddiau ymgynghori hefyd ar gael i fynd adref o nifer o bwyntiau gwybodaeth. Ewch i'n gwefan am restr llawn o leoliadau.

**This document is also available in English on our website here.**

"Yn Uniper, rydym yn deall pwysigrwydd bod yn gymydog da ac yn credu mewn cynnwys y gymuned. Mae eich adborth yn hanfodol i helpu i lunio dyfodol ein safle yng Nghei Connah a byddwn yn annog pawb i gymryd rhan yn yr Ymgynghoriad Statudol a rhannu eich barn a'ch syniadau am ein cynlluniau."

**Helen Rogers,**
Rheolwr Prosiect Uniper

Mae prosiect CQLCP yn ystod cam cynnar ei ddatblygiad, ac mae'n bosibl y bydd cynigion ar gyfer y prosiect yn newid, ond ar hyn o bryd, disgwylir iddo gynnwys y canlynol:

- **gorsaf bŵer tyrbin nwy cylch cyfun (CCGT)**, gyda chapasiti disgwyliedig o 1.1GW a hyd at uchafswm o 1.38GW[1];
- **technoleg casglu carbon integredig** er mwyn gallu casglu allyriadau carbon deuocsid ($CO_2$) o'r CCGT;
- **cysylltiad â seilwaith trafnidiaeth a storio $CO_2$ cyfagos** fel rhan o glwstwr diwydiannol HyNet, gan alluogi cludo'r $CO_2$ a ddelir yn ddiogel i gyfleusterau storio parhaol mewn meysydd nwy ar y môr disbyddedig sydd wedi'u hail-bwrpasu.

[1] Mae'r prosiect ar gam cynnar a bydd y capasiti terfynol yn cael ei bennu ar ôl cwblhau'r Dyluniad Peirianneg Pen Blaen (FEED), a fydd yn dechrau yn nes ymlaen yn 2024. Mae Uniper yn gweithio tuag at ddatblygiad sy'n cynnwys dau gam, pob un yn tua 550 megawat (MW), gan ddarparu tua 1.1 GW a hyd at uchafswm o 1.38GW o bŵer carbon isel.

# Ynglŷn ag Uniper

Mae Uniper yn gwmni ynni rhyngwladol gyda gweithgareddau mewn mwy na 40 o wledydd, ac mae ganddo tua 7,000 o weithwyr ledled y byd. Yn y DU, mae Uniper yn gweithredu ac yn berchen ar bortffolio cynhyrchu hyblyg o saith gorsaf bŵer, cyfleuster storio nwy cylch cyflym a dwy bibell nwy pwysedd uchel, o Theddlethorpe i Killingholme ac o Blyborough i Cottam.

Mae Uniper yn bwriadu bod yn gwbl garbon-niwtral erbyn 2040, a'i nod yw i'w gapasiti cynhyrchu pŵer gosodedig fod yn fwy nag 80% di-garbon erbyn 2030. Er mwyn cyflawni hyn, mae'r cwmni yn trawsnewid ei bwerdai a'i gyfleusterau presennol ac yn buddsoddi mewn unedau cynhyrchu pŵer hyblyg y gellir eu danfon.

Mae'r cwmni yn ehangu ei bortffolio nwy yn raddol i gynnwys nwyon carbon isel fel hydrogen a biomethan, a'i nod yw trosi i'r nwyon hyn dros y tymor hir.

# Ein digwyddiadau sydd ar y gweill

Byddwn yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau gwybodaeth i'r cyhoedd i roi cyfle i chi weld ein cynlluniau diweddaraf yn fanwl, cael sgwrs gydag aelodau o dîm ein prosiect a rhoi eich adborth ar ein cynigion.

## Digwyddiadau wyneb yn wyneb:

**Dydd Mercher 23 Hydref 2024**
**Canolfan Gynadledda, Coleg Cambria Glannau Dyfrdwy, Ffordd Kelsterton, Cei Connah, CH5 4BR** 16:00 – 20:00

**Dydd Sadwrn 26 Hydref 2024**
**Neuadd y Dref y Fflint, Stryd Treffynnon, Y Fflint, CH6 5NW** 11:00 – 16:00

**Dydd Iau 7 Tachwedd 2024**
**Clwb Criced Cei Connah, 5 Stryd Cable, Cei Connah, CH5 4DZ** 13:00 – 18:00

## Gweminarau ar-lein:

**Dydd Sadwrn 19 Hydref 2024**
11:00 – 12:00

**Dydd Mawrth 22 Hydref 2024**
18:00 – 19:00

**Dydd Llun 4 Tachwedd 2024**
18:00 – 19:00

**Sganiwch y cod QR i gofrestru ar gyfer ein gweminarau.**

# Yr Angen am y Prosiect

Er mwyn sicrhau bod gan y DU system bŵer ddiogel a dibynadwy o hyd wrth i ni ddod yn fwy dibynnol ar drydan, bydd angen mwy o gapasiti cynhyrchu. Yn ôl ymgynghorydd annibynnol y DU ar newid yn yr hinsawdd, sef y Pwyllgor Newid Hinsawdd (CCC), rhagwelir y bydd y galw am drydan yn cynyddu 50% erbyn 2035.

Byddai'r orsaf bŵer CCGT newydd arfaethedig gyda thechnoleg dal carbon yng Nghei Connah yn gallu cynhyrchu pŵer carbon isel yn hyblyg ac yn ddibynadwy i ddiwallu'r angen cynyddol am drydan, pryd bynnag y bydd ei angen. Bydd gorsafoedd pŵer fel hyn yn chwarae rhan hollbwysig yn system ynni'r dyfodol, gan y gall helpu i sicrhau bod ynni ar gael ar adegau pan fydd ei angen fwyaf, a phan na all pŵer o ffynonellau adnewyddadwy ddiwallu'r galw.



# Ffeithiau allweddol am ein cynigion

Gallai CQLCP helpu i ddiwallu galw cynyddol y DU am drydan, y rhagwelir **y bydd yn cynyddu 50% erbyn 2035**[2]

Mae ein safle yng Nghei Connah yn **lleoliad delfrydol ar gyfer gorsaf bŵer carbon isel newydd**, ar ôl bod yn cynhyrchu ynni ar y safle ers y 1950au

**Mae'r seilwaith hanfodol sydd ei angen ar gyfer cynhyrchu ynni eisoes yn ei le**, gan gynnwys cysylltiadau â'r grid trydan cenedlaethol a phiblinell y gellir ei hailosod a'i defnyddio i gludo $CO_2$ a ddaliwyd

Pan fydd CQLCP yn gwbl weithredol, gallai gynhyrchu **digon o drydan carbon isel i bweru hyd at 2.8 miliwn o gartrefi'r flwyddyn**[3]

Pan fydd CQLCP yn weithredol, ac yn llawn, **gallai ddal a storio hyd at 3.7 Mt o $CO_2$ y flwyddyn**, gan gyfrannu at drawsnewid y DU i sero net

Gallai CQLCP gyfrannu at dwf economaidd, **gan ddiogelu swyddi technegol medrus a chreu cyfleoedd newydd yn ystod y cyfnod adeiladu**

[2] Yn ei Lwybr Cytbwys ar gyfer y Chweched Gyllideb Garbon (Rhagfyr 2020), mae Pwyllgor Newid Hinsawdd (CCC) y DU yn rhagweld cynnydd o 50% yn y galw am drydan erbyn 2035, a dwbl y galw am drydan erbyn 2050 (Chweched Gyllideb Garbon - Y Pwyllgor Newid Hinsawdd (theccc.org.uk)).

[3] Ar ôl i'r orsaf bŵer gael ei datblygu'n llawn i 1.1GW, gallai gyflenwi digon o drydan carbon isel i bweru hyd at 2.8 miliwn o gartrefi'r flwyddyn, neu'n cyfateb i 69% o'r galw blynyddol cyfartalog am bŵer yng Nghymru. (Dim ond i roi cipolwg ar y cyfraniad y byddai'r orsaf bŵer carbon isel yn ei darparu y gwneir cymhariaeth â'r galw blynyddol cyfartalog am bŵer yng Nghymru).

# Adborth a gawsom yn ein Hymgynghoriad Anstatudol

Rhwng dydd Llun, 26 Chwefror 2024, a dydd Llun, 25 Mawrth 2024, fe wnaethom gynnal cam cyntaf ein hymgynghoriad, gan ysgrifennu at fwy na 20,000 o gyfeiriadau lleol i gasglu adborth am gynigion cynnar y prosiect. Cawsom fwy na 50 darn o adborth, ac rydym yn gwerthfawrogi pawb a roddodd o'u hamser i rannu eu safbwyntiau.

Dyma ein prif ganfyddiadau:

Roeddem yn falch iawn o weld cefnogaeth gynyddol i'r prosiect, gyda'r ymatebwyr yn dangos yn gyson agwedd niwtral i gadarnhaol at y cynigion. Dim ond 15% o'r ymatebwyr sy'n anghytuno y dylai'r DU adeiladu gorsafoedd pŵer carbon isel newydd i sicrhau cyflenwad diogel ac, yn benodol, dywedodd 61% eu bod yn cefnogi neu'n ddiduedd tuag at orsaf bŵer newydd ar ein safle yng Nghei Connah.

Roedd yr ymgynghoriad yn tynnu sylw at bwysigrwydd deialog a thryloywder parhaus gyda'r gymuned.

Mynegwyd pryderon ynghylch yr effeithiau posibl ar fioamrywiaeth yng Ngwarchodfa Natur Glannau Dyfrdwy gerllaw.

ynegwyd peth ansicrwydd ynghylch a oedd lleoliad y safle ei hun yn addas, ond roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo bod ein safle yng Nghei Connah yn lleoliad addas ar gyfer gorsaf bŵer carbon isel newydd.

Roedd gan tua 30% o ymatebwyr gwestiynau am y tarfu posibl sy'n gysylltiedig â gweithgarwch adeiladu, ac am y traffig cynyddol yn yr ardal.

Mae'r adborth a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad cynnar hwn wedi cael ei adolygu a'i ddadansoddi i ddeall themâu allweddol a materion o bwys. Ar ôl casglu'r wybodaeth gychwynnol hon a'r adborth, rydym wedi paratoi dyluniad mwy datblygedig ar gyfer y prosiect, gyda rhagor o fanylion, gan gynnwys gwybodaeth am sut mae effeithiau posibl wedi cael eu hasesu a sut rydym yn bwriadu eu rheoli neu eu lliniaru.



# Yr Ymgynghoriad Statudol a'r camau nesaf

Bydd Uniper yn ceisio cael caniatâd cynllunio ar gyfer y prosiect CQLCP drwy gyflwyno cais cynllunio Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO) i'r Arolygiaeth Gynllunio o dan Ddeddf Cynllunio 2008 ar gyfer Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIP). Bydd ein Hymgynghoriad Statudol sydd ar y gweill yn rhoi cyfle ffurfiol i chi roi sylwadau ar ein cynigion diweddaraf cyn i ni gyflwyno cais, y disgwylir iddo fod yn gynnar yn 2025.

Fel rhan o'r broses gynllunio, rydym wrthi'n cynnal Asesiad llawn o'r Effaith Amgylcheddol i ganfod unrhyw effeithiau amgylcheddol posibl sy'n gysylltiedig â chamau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r prosiect, sut mae'r rhain wedi dylanwadu ar ddatblygiad y dyluniad, a pha ddull y byddwn yn ei ddefnyddio i liniaru neu osgoi unrhyw effeithiau niweidiol sylweddol.

Bydd Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol – sy'n cynnwys gwybodaeth amgylcheddol ragarweiniol am effeithiau posibl y prosiect – yn cael ei ystyried fel rhan o'r Ymgynghoriad Statudol.

Bydd yr Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol a'r Crynodeb Annhechnegol ar gael i'w gweld ar wefan ymgynghori'r prosiect ac mewn digwyddiadau wyneb yn wyneb yn ystod ein Hymgynghoriad Statudol, a fydd yn cael ei gynnal rhwng **dydd Mawrth 8 Hydref a dydd Mawrth 19 Tachwedd 2024**.

Gallwch roi adborth ar ein cynigion drwy wneud y canlynol:

- llenwi ein holiadur adborth ar-lein ar ein gwefan ymgynghori;
- llenwi ffurflen adborth copi caled sydd ar gael yn ein digwyddiadau ymgynghori wyneb yn wyneb a'n pwyntiau gwybodaeth;
- cysylltu â'n Tîm Cysylltiadau Cymunedol yn uniongyrchol gan ddefnyddio'r manylion isod. Gallwch hefyd ofyn am gopi caled o ffurflen adborth gan y tîm.

Rhaid i chi anfon yr adborth i Uniper erbyn **11:59pm nos Fawrth 19 Tachwedd 2024**. Yn dilyn ein Hymgynghoriad Statudol, byddwn yn adrodd ar ganlyniadau'r broses hon yn ein Datganiad Amgylcheddol llawn, a byddwn yn ei gyflwyno fel rhan o'n cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu ddechrau 2025.

# Ble i ddarganfod mwy

**I gael rhagor o wybodaeth am ein prosiect ac i gael gafael ar ein deunyddiau ymgynghori, gan gynnwys yr Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol a'r Crynodeb Annhechnegol, ewch i https://uniperuk.consulting/cqlcp/ neu sganiwch y cod QR i gael eich cyfeirio at ein gwefan. Gellir gweld dogfennau'r ymgynghoriad o ddyddiad lansio'r ymgynghoriad ymlaen, sef dydd Mawrth 8 Hydref.**

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ein hymgynghoriad yn hygyrch i bawb. Bydd ein gwefan a holl ddeunyddiau allweddol y prosiect, gan gynnwys y cylchlythyr hwn, ein llyfryn ymgynghori, ein ffurflen adborth a'n Crynodeb Annhechnegol o'r Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol, ar gael yn Gymraeg. Gallwn hefyd ddarparu ein deunyddiau mewn fformatau eraill. **Os oes angen unrhyw rai o'n deunyddiau arnoch mewn fformat arall, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r wybodaeth a ddarperir uchod**.

Cynhyrchwyd y ddogfen hon gan Uniper UK Limited, a gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth a gynhwysir yn gywir o'r dyddiad cyhoeddi. Mae'r prosiect yn dal i fod yn gyfnod gynnar, ac felly gall diweddariadau neu newidiadau yn y dyfodol effeithio ar gywirdeb neu berthnasedd y wybodaeth hon.

# Cysylltu â ni

Os hoffech siarad â ni am y prosiect, gallwch gysylltu â'n Tîm Cysylltiadau Cymunedol gan ddefnyddio'r wybodaeth gyswllt ganlynol:

E-bostiwch ni **info@connahsquaylcp.co.uk** | Ffôniwch ni **0800 0129156** | Ysgrifennwch atom i **FREEPOST CQLCP**